

# Meidroldeb ac anfeidroldeb

---

*“...atebodd Iesu ... ‘Y mae fy Nhad yn dal i weithio hyd y foment hon, ac yr wyf finnau’n gweithio hefyd.’” (adn. 17)*

## **Beth am ddarlenn Ioan 5:16–30 ac yna myfyrio**

Wedi i ni gydnabod lle canolog Iesu yn stori fawr Duw, rhaid i ni ystyried y cwestiwn yn awr: Beth fydd yn digwydd os na chawn ni afael ar yr ymdeimlad yma o stori sydd yn brif thema yr Ysgrythur? Un peth sy’n sicr: fe gawn ein dal yn ein stori ein hunain ac ymgolli yn ein hunain yn hytrach nag yn y Gwardedwr. Dywedodd yr athronydd Jean-Paul Satre na all unrhyw fan sydd â therfyn iddi fod yn gyd-destun addas ar gyfer ei hystyried ei hun. Hyn rwyf i’n ceisio ei ddweud, sef, os cymeraf fan terfyn fy stori i fy hun ni allaf ddod o hyd i ystyr iddi heb ei gosod mewn cyd-destun ehangach. Mae stori ehangach Duw yn gosod fy stori i mewn cyd-destun. Mae fy meidroldeb i ynghlwm wrth anfeidroldeb. Rhaid imi ofyn i mi fy hun: Fedra i weld stori sy’n llawer mwy na fi neu ai gweld fy hun fel dechrau a diwedd y stori ydw i?

Peth arall fydd yn digwydd fydd na chawn ni unrhyw ymwybyddiaeth o gael ein tynnu i mewn i weithgarwch Duw. Mae’r Hollalluog ar waith yn y byd. Gwna ein testun heddiw hynny’n gwbl amlwg. Sylwch fel mae’r geiriau “gweithio” yn cael eu gosod yn y modd presennol i gyd. Ar ganol pa waith mae’r Tad? Mae ar ystod eang o bethau, wrth gwrs, ond rhan o’i waith ydy datblygu stori ei iachawdwriaeth – stori gyda rhan arbennig ynddi i ti a minnau.

Mae pob crediniwr yn cael ei gynnwys yn stori Duw, yn teithio tuag ato ef ac yn cael eu tynnu’n nes ato ef. ‘Wyt ti’n ymwybodol o’r teimlad o fod ar siwrne wrth symud o un dydd i’r nesaf – a dy fod yn cael dy siapio a’th fowldio, dy ddisgyblu a’th ffitio i’w gynllun ef? Os nad oes gennyt ti’r ymdeimlad yma o fod yn rhan o weithgaredd Duw, yna rho daw ar bopeth, dos ar dy liniau, a myfyria ar yr hyn y bûm i’n ei ddweud yn ystod y dyddiau diwethaf yma.

## **Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:**

Ex. 3:13–14; Marc 12:24; Luc 24:25

## **Meddyliwch am y cwestiynau hyn:**

1. Sut y dangosodd Duw i’r Israeliaid Ei fod wrth Ei waith?
2. Pam ein bod mor aml ar fai ac yn ffôl?

## **Gweddi**

O Dad, os ydw i’n ara’ deg i ddysgu bod fy mywyd i yn rhan o stori fwy, stori dragwyddol, plis wnei di faddau i mi. Helpa fi i edrych ar y gwirionedd yma, nid trwy lygaid oer amheuaeth, ond yn hytrach trwy lygaid cynhesol ffydd. Yn enw Iesu. Amen.